**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Rhagfyr 2006**

## Rheng i Rôl

**Adroddiad gan Paul Claydon**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I roi'r diweddaraf i aelodau o'r newid terfynol o Reng i Rôl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cyflwyniad

**2.** Mae'r newid terfynol o'r strwythur blaenorol yn seiliedig ar reng i strwythur sy'n seiliedig ar rôl, y System Datblygiad Personol Integredig, yn mynd rhagddo yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â chytundeb cyflog Mehefin 2003.

**3.** Mae cam cyntaf y broses hon wedi ei chymhwyso hyd at lefel rheoli goruchwyliol (Diffoddwr Tân, Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa) ac mae'r broses apêl ddilynol wedi cael ei chwblhau. Ni chafodd staff yr Ystafell Reoli eu cynnwys yn y broses hon oherwydd adolygiad cenedlaethol o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n gwneud mapiau rôl staff yr Ystafell Reoli.

**Cefndir**

**4.** Mae cylchlythyr y Cyd-Gyngor Cenedlaethol 13/03 yn gosod y trefniadau ar gyfer cymhathu gweithwyr o’r strwythur taliadau blaenorol, sy’n berthnasol i reng, i’r strwythur taliadau newydd, sy’n berthnasol i rolau, ddaeth yn effeithiol o’r 7fed Tachwedd 2003. Dangosir yn nhabl A i staff ar y System Dyletswydd Llawn Amser a thabl B i’r rhai ar y System Dyletswydd Rhan Amser.

| **Tabl A (System Dyletswydd Llawn Amser Rheng Derfynol Bresennol** | **Rôl Newydd** |
|---|---|
| Diffoddwr Tân | Diffoddwr Tân |
| Diffoddwr Tân Arweiniol | Rheolwr Criw |
| Is- Swyddog | Rheolwr Gwylfa A |

| **Tabl B (System Dyletswydd Rhan Amser) Rheng Derfynol Bresennol** | **Rôl Newydd** |
|---|---|
| Diffoddwr Tân | Diffoddwr Tân |
| Diffoddwr Tân Arweiniol | Rheolwr Criw |
| Is-Swyddog | Rheolwr Gwylfa A |
| Is-Swyddog yn Rheoli Gorsaf | Rheolwr Gwylfa B |

**Cefndir** *(parhad)*

**5.** Yn Rhagfyr 2003, ail-bwysleiswyd yng Nghylchlythyr y Cyd-Gyngor Cenedlaethol 15/03 fod yr ymarfer cymhathu hwn (a ddangosir yn y tablau uchod) 'ar gyfer pwrpasau taliadau yn unig' ond nid oedd ei hunan yn gweithredu'r strwythur rôl System Datblygiad Personol Integredig. Roedd hyn oherwydd nad oedd yr holl gytundebau cenedlaethol priodol yn eu lle. Aeth y cylchlythyr ymlaen i nodi "Tra bydd awdurdodau tân yn ddiamod eisiau dechrau rhoi ystyriaeth i faterion yn amgylchynu'r gweithrediad o'r strwythur rôl System Datblygiad Personol Integredig, byddai'n gynamserol iddyn nhw wneud penderfyniadau terfynol yn y cam hwn ar y dyraniad tymor hir o rolau i swyddi presennol".

**6.** Roedd cylchlythyr y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn Awst 2005 yn rhoi canllaw i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar y newid terfynol o Rôl i Reng i ailosod y cymathiad 'ar gyfer pwrpasau taliadau yn unig'. Roedd y cylchlythyr yn nodi'n glir, yn nhermau'r gyllideb gyfan, y dylai Rheng i Rôl fod yn gost niwtral, gydag unrhyw gynyddiadau yn cael eu cwrdd o'r arbedion effeithlonrwydd.

**7.** Cafodd materion diogelu taliadau sy'n codi o Reng i Rôl eu trafod yng nghylchlythyr y Cyd-Gyngor Cenedlaethol 12/05 yn dilyn y mater o drefniadau diogelu taliadau mewn perthynas â'r newid terfynol o Reng i Rôl yn cael ei gyfeirio i ACAS i'w gymodi, a chyflafareddu wedi hyn. Roedd y broses cyflafareddu yn cytuno y byddai unigolyn yn cadw diogelu taliadau am gyfnod o dair mlynedd o gymathiad. Byddai hyn yn cynnwys codiadau mewn taliadau.

## Gwybodaeth

**8.** Gan fod cylchlythyr y Cyd-Gyngor Cenedlaethol 09/05 yn cynnwys canllaw ond nid proses ddiffiniol o symud o Reng i Rôl, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a chynrychiolydd o Undeb y Brigadau Tân i greu model i'w weithredu yn y Rhanbarth Cymreig.

**9.** Daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen â'i waith i ben a cytunwyd ar y model gorffenedig gan yr holl bartïon i'w weithredu ar draws Cymru o 1af Gorffennaf 2006. Mae'r model yn cynnwys yr holl ganllawiau sydd wedi eu cynnwys yng nghylchlythyr y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn cynnwys system fesuradwy i fesur swydd i werthuso statws A neu B a gweithdrefnau apelio.

**10.** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi defnyddio'r model cydseiniol wrth ymgymryd â'r cymathiad o Reng i Rôl ar gyfer 805 o Ddiffoddwyr Tân, Rheolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa ar draws staff y Systemau Dyletswydd Rhan Amser a'r System Dyletswydd Llawn Amser ynghyd ag apeliadau dilynol 13 aelod o staff.

## Goblygiadau Ariannol

**11.** Fe a nodir uchod, bwriedir i'r goblygiadau ariannol fod yn ddim oherwydd y dylai costau gael eu cwrdd o'r arbedion effeithlonrwydd. Bydd diwedd i'r diogelu taliadau wedi tair blynedd yn cynrychioli gostyngiad ar gyllideb cyflogau.

**12.** Mae cymathiadau lefel goruchwyliol wedi sylweddu cynnydd o £8k mewn costau cyflog yn bresennol. Bydd gostyngiad disgwyliedig yn 2009 o £10500 gyda diddymiad diogelu taliadau (ar y cyfraddau presennol).

**Argymhellion**

**13.** Fod aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn; a

**14.** Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau'r cymathiadau lefelau rheoli eraill (Rheolwr Gorsaf, Rheolwr Grŵp a Rheolwr Ardal) ar gael i aelodau ar gwblhad y broses Rheng i Rôl ar gyfer y lefelau hyn.